

YR EGLWYS YNG NGHYMRU — THE CHURCH IN WALES

# FFRINDIAU'R BYD SESSION 5 Sut allwn fod yn ofalwyr o greadigaeth Duw?

**Ffocws Dysgu (Gwella Adran 50)**

- I ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o werthoedd Cristnogol a sut y gallant gael effaith gadarnhaol ar ein hymddygiad a'n perthnasoedd fel dinasyddion â gwybodaeth foesegol, a hefyd fel stiwardiaid da ar y blaned.
- I wneud cysylltiadau rhwng ein hymddygiadau, ein gweithredoedd a'r Efengyl.

**Ymgysylltu**

Fel "dinasyddion moesegol, gwybodus" rydym yn dysgu: sut i ddeall effaith ein gweithredoedd, sut i barchu hawliau ac anghenion eraill, ac i ddangos ein ymroddiad i gynaladwyedd y blaned. Fel dinasyddion ein ysgolion, ein cymunedau, ein gwlad a'n byd mae dyletswydd arnom i ofalu am ein planed.

Mae'r straeon creu rydym wedi bod yn ei astudio yn ein cynorthwyo i esbonio a meddwl am ein lle yn y byd. Mae sawl stori yn pwysleisio pwysigrwydd o gyd-fyw mewn harmoni hefo'r amgylchedd, o barchu adnoddau'r ddaear. Mae Cristnogion yn galw Duw yn "Greawdwr" ac rydym yn dysgu sut y byddai Duw yn hoffi i ni fod yn stiwardiaid, yn ofalwyr o'i greadigaeth, gofalu am ein byd. Gweledigaeth Duw yw Daear lle mae pobl yn parchu'r blaned ac yn parchu eu gilydd.

Felly beth mae hyn yn ei olygu: beth sydd rhaid i ni ac eraill ei wneud i fod yn ofalwyr da?

Fel "dinasyddion moesegol, gwybodus" mae ganddom lais i godi a dweud beth y tybiwn sydd yn anghywir yn ein hysgolion, ein cymunedau, ein gwlad a'r byd. Ydych chi'n cofio Greta Thunburg? Bu'n ymgyrchu ar draws y byd am well ddyfodol amgylcheddol i bobl ifanc yn y dyfodol.
Allwch chi ddarganfod mwy am Greta a'i llwyddiannau.

Mae'r Eglwys yng Nghymru a Cymorth Cristnogol wedi adnabod argyfwng hinsawdd. Wrth edrych nôl at y straeon creu, gwelwn fod Duw wedi rhoi cyfrifoldeb arbennig i ni fel pobl i ddiogelu a gofalu am ei greadigaeth. Felly fel gofalwyr/stiwardiaid o'n byd mae dyletswydd arnom ni dros y blaned, yr amgylchedd, anifeiliaid a'r pobl yn ein byd. Dyletswydd i fyw bywyd sydd parchu creadigaeth Duw. Gwelwn hefyd fod pobl o bob ffydd, neu ddim, yn rhannu'r feddylfryd yma o'r dyletswydd i ofalu am ein planed.


Fel esboniodd y Pab Francis,
It means protecting all creation, the beauty of the created world, as the Book of Genesis tells us and as Saint Francis of Assisi showed us. It means respecting each of God's creatures and respecting the environment in which we live. - Pope Francis

Rhaid i NI felly fod y pobl sydd yn achosi'r newid er gwell. Llenwi ein calonnau â chariad a gweithredoedd da fel i ni gynorthwyo ac arwain eraill i wneud y pethau da.
Gweithredu ysgol gyfan;
Felly beth all ysgolion wneud i gynorthwyo pobl ifanc wrth wynebu'r argyfwng hinsawdd?

**Gweithredu ysgol gyfan;**
**Felly beth all ysgolion wneud i gynorthwyo pobl ifanc wrth wynebu'r argyfwng hinsawdd?**
**1. Cwricwlwm.** Archwilio cysylltiadau i newid yn yr hinsawdd ar draws pob maes pwnc. Cyflwyno dysgu ar sail prosiect i ddatblygu addysg ar gyfer cynaliadwyedd fel blaenoriaeth drawsgwricwlaidd. Gall ysgolion ddefnyddio dulliau dysgu ar sail prosiect i archwilio ystod o bynciau, gan gynnwys aelodau o'r gymuned leol yn eu gwaith. Rhowch lais i'r disgyblion, gofynnwch iddyn nhw beth hoffen nhw ei weld yn cael eu haddysgu gyda'u cwricwlwm ynghylch newid yn yr hinsawdd / argyfwng hinsawdd ac ati
**2. Bwyd.** Creu gardd i dyfu llysiau, neu amrywio'r llysiau yn eich gardd. Prynu bwyd lleol, organig lle mae'n bosib. Efallai meddwl pam mae rhai pobl yn lysiewyr neu'n fegan. Trafod yr syniad o ddydd Gwener di-gig,. Rhoi gwersi coginio bwyd iach.
**3. Trafnidiaeth.** Hyrwyddo cerdded neu ddefnyddio beic i'r disgyblion, gweithlu'r ysgol a'r rhieni. Edrych ar bolisi teithio'r ysgol. Hyrwyddo Wythnos Cerdded i'r ysgol yn eich cymuned. Beth am gerdded pob wythnos?
**4. Adnoddau.** Defnyddio adnoddau cynaladwy adnewyddadwy. Gwahardd plastig un defnydd. Prynu adnoddau sy'n dda i'r amgylchedd, adnoddau Masnach Deg. Defnyddio offer glanhau bioddiradwy. Edrych eto ar bolisiau adnoddau.
**5. Ynni.** Diffodd goleuadau, troi y gwres i lawr, gwisgo mwy o ddillad. Ynysu ac awyru. Edrych ar ddefnyddio paneli solar neu tyrbin gwynt. Ysgrifennu at yr Awdurdod Lleol i holi am ddarparwyr ynni a sut i'w newid am rhai mwy gwyrdd.
**6. Dillad.** Osgoi dillad ysgol rhad sydd wedi ei mewnforio o wledydd sy'n datblygu. Hyrwyddwch y defnydd o ddeunyddiau naturiol cynaladwy. Ail gylchu dillad a cynnal siop neu man cyfnewid dillad ysgol ail law.
**7. Tir yr ysgol.** Tyfu llysiau, garddio ar dir yr ysgol, plannwch goed. Annogwch fywyd gwyllt i dir yr ysgol. Defnyddiwch ddysgu awyr agored.
**8. Cyfranogiad.** Creu pwyllgor argyfwng hinsawdd gan gynnwys disgyblion, staff ysgol, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol i weld beth sydd bosib ei wneud. Gall bob un ohonom gyfrannu i wneud gwahaniaeth i'n planed
Mae hyn yn gyfle arbennig i ddatblygu addysg ymhellach, fel bod disgyblion, ysgolion a chymunedau yn cyd-weithio ar genhadaeth sy'n bwysig i ni gyd.


**Gweithredu gan y disgyblion**
1. Creu collage o'r pethau sy'n llygru ein planedgan greu cynhesu byd eang a'r argyfwng hinsawdd.
2. Creu collage o'ch byd delfrydol.
3. Creu "eco bricks" gan ail ddefnyddio plastig.
4. Rhwng Medi 1af-Hydref 4ydd mae'r eglwys yn dathlu tymor y creu. Ymchwiliwch ymhellach i beth mae hyn yn ei olygu.

5. Ar Hydref 4dd mae’r eglwys yn cofio Sant Francis o Assisi. Ydych chi’n gwybod ei hanes?
6. Chwiliwch am wybodaeth ynglyn a chyfarfod COP26 sydd i’w gynnal yn Glasgow yn mis Tachwedd.
7. Ysgrifennwch lythyr at eich Aelodau Seneddol i’w rannu gyda’r cynrychiolwyr yn y COP26 Glasgow ynglyn a’ch dyheuadau am blaned y dyfodol.
8. Ysgrifennwch lythyr creu fel rhan o brosiect Cymorth Cristnogol am argyfwng hinsawdd. Mae llythyrau ar gyfer creu yn brosiect sy'n gwahodd plant i ddweud wrth y bobl mewn gofal beth yw eu barn am newid yn yr hinsawdd a sut mae angen iddyn nhw ofalu am ein byd. Gallai eich llythyrau fod ar unrhyw ffurf: gair ysgrifenedig, celf, cân, rap, barddoniaeth neu weddi. Felly meddyliwch, pe gallech chi ddweud rhywbeth wrth y bobl â gofal am edrych ar ôl ein planed, beth fyddech chi'n ei ddweud? Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gydag Eglwys Loegr i gynhyrchu arddangosfa sy'n arddangos detholiad o'r llythyrau hyn. Felly, rydym ni yn yr Eglwys yng Nghymru wedi penderfynu gwneud yr un peth, a byddwn yn rhannu eich llythyrau ac ati, yn ein 6 eglwys gadeiriol ledled y wlad, a gobeithio yng Nghynhadledd Lambeth, ac yng Nghynhadledd Newid Climat y Cenhedloedd Unedig (COP26) i'w chynnal yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021.
9. Gwnewch i’ch gweithredoedd gyfrif ac ysbrydolwch eraill drwy rhannu eich gwaith gan ddefnyddio #TogetherForOurPlanet #Gyda’nGilyddI’nPlaned Count Us In campaign.



**Myfyrio**

I orffen rydym yn cyhoeddi Cystadleuaeth Argyfwng Hinsawdd yr Eglwys yng Nghymru. Hoffwn weld luniau sy’n dangos sut fyddai’r disgyblion yn gweld ein planed yn y dyfodol, eu gobeithion i’r blaned. Gallent ychwanegu chydig o eiriau i esbonio eu gwaith gan nodi beth sydd yn bwysig iddynt at y dyfodol.
Mae’r gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion ysgolion yr Eglwys yng Nghymru sy’n rhwng 3-16 oed.
Bydd rhai o’r lluniau yn cael eu arddangos ym mhob cadeirlan yng Nghymru ac ar ein gwefanau. Mi fydd gwobr yn cael ei rhoi i’r ennillwyr.
Cyfnod sylfaen
Cyfnod allweddol 2
Cyfnod allweddol 3
Cyfnod allweddol 4



**Trawsnewid**

Wedi i chi gwblhau’r prosiect Ffrindiau’r Byd, meddyliwch am y newidiadau sydd wedi cael ei wneud.
Ydych chi’n meddwl am rhywbeth mewn ffordd wahanol?
Ydych chi wedi newid y ffordd rydych yn gweithredu o ddydd i ddydd?
Ydi’r ysgol wedi gwneud newidiadau?
Ydych chi wedi penderfynu i gymeryd camau pellach?
Rhannwch eich gweithredodd, eich newidiadau a datblygiadau gyda’r esgobaeth.
Fel cymunedau sy’n dysgu rydym yn dyheu i gefnogi ein gilydd ac i ymestyn allan i gefnog, rhannu ac arwain ein cymunedau.